

Sul Un Byd

Darllen: Ioan 17:21

Ar Suliau undebol, pan ddaw eglwysi'r ardal at ei gilydd, mae'n ddi-ddorol sylwi pwy sy'n bresennol. Mae'n bur debyg y bydd criw go dda o'r eglwys leol y cynhelir y gwasanaeth ynddi, ond prin iawn yw aelodau'r eglwys eraill. Fe ddywedodd un wraig wrthyf un tro, 'Rydw i yn ei chael hi'n anodd iawn i addoli yn y capel i lawr y ffordd, wedi arfer efo fy sêd fy hun yn fy nghapel fy hun'. A dyna'n hanes ni.

Rhagwelodd Iesu mai un o'r peryglon a fyddai'n bygwth llwyddiant ei waith ar ôl ei ymadawiad at y Tad fyddai anghydfod ac anghydweld ymhlith ei ddilynwyr. Gwyddai eisoes am yr ymrafael a ddigwyddodd ymhlith ei ddisgyblion. Dyhead mam Iago ac Ioan, fel pob mam mae'n siŵr, oedd i'r ddau fab gael eistedd bob ochr i Iesu yn y deyrnas, 'Pan glywodd y deg, aethant yn ddig wrth y ddau frawd' (Mathew 20:24). Digwyddodd yr un peth yn hanes yr Eglwys pan fu'n rhaid i Paul geryddu Pedr yn Antiochia. Roedd Pedr wedi derbyn yr egwyddor o gyd fwyta gyda'r Cenedl-ddynion, yn enwedig yn sgil y weledigaeth a gafodd yn Jopa, ond wedi iddo gyrraedd Antiochia mae'n dechrau ymbellhau oddi wrth ei ddaliadau cynnar ac yn ymatal rhag bwyta gyda Chenedl-ddynion. Ac mae'n cymell eraill o blith yr Iddewon Cristnogol i ymuno yn y rhagrith hwn (Galatiaid 2:11-14). Wrth i'r Eglwys dyfu trwy genhadaeth yr Apostolion, ac i bobl o wahanol gefndiroedd a thraddodiadau a diwylliannau ddod yn rhan ohoni, roedd yn naturiol y byddai rhyw gymaint o anghydweld yn peryglu eu hundod. Ond mae'r undod hwn yn allweddol os yw'r byd i gael ei ennill i'r Ffydd, a gellir gwireddu'r undod hwn heb unrhyw unffurfiaeth.

Y patrwm ar gyfer yr undeb rhwng Cristnogion a'i gilydd yw perthynas y Tad a'r Mab, perthynas sy'n seiliedig ar gariad y naill at y llall, ac ar ufudd-dod llwyr y Mab i'r Tad. Trwy fod mewn gwir berthynas â'r Tad a'r Mab y byddwn yn sicrhau undod yr Eglwys. Aros yn y cariad hwn, a gadael i Grist breswyllo ynom yw'r ffordd i ddod yn un.

Ond mae galwad Sul Un Byd yn mynd â ni gam ymhellach ac yn rhoi cyfle i ni gofleidio pobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau er mwyn dod i'w hadnabod yn well, a dod i ddeall eu ffyrdd a'u hamcanion. Fel y dywed geiriau'r weddi, 'Gwasgeraist yr hil i bedwar ban yn gwllwm o genhedloedd, ac o'u gwaddol fe gyfyd, o oes i oes, flagur bywyd'. Yn ein cymunedau heddychlon, mor hawdd ydi anghofio am ein cyd-gristnogion sy'n cael eu poenydio a'u lladd mewn rhai gwledydd. Beth yw ein consymr amdanyn nhw? Rydyn ni wrthi'n brysur iawn, gyda chefnogaeth llywodraethau'r byd, yn rhyfela, dinistrio a lladd. Beth am i ni, ar Sul Un Byd, sicrhau fod gennym yr awydd i geisio heddwch a ffyniant i'r byd cyfan? Mae rhywbeth mwy nag arfau dinistriol yn y byd; mae cariad y Mab at y Tad, a chariad y Tad at y Mab yn dal i'n herio.

Myfyrdod pellach:

Beth yw neges Sul Un Byd i'ch eglwys chi?

Sut mae gweithredu cariad y Mab at y Tad yn ein cymdeithas?